## CYNGOR BRO MORGANNWG

## RHESTR TALIADAU CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2024/25

Mae'r Cynllun hwn wedi ei lunio gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ynghylch Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) sy’n berthnasol i dalu aelodau ac Aelodau Cyfetholedig awdurdodau lleol. Mae canllaw pellach ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2024 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy’n gosod y fframwaith rhesymegol sy'n sail i'r lefelau tâl a awgrymwyd ar gyfer 2024/25.

### 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Telir Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o’r Awdurdod.

1.2 Yn unol â’r Rheoliadau, adolygir cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn flynyddol fel y penderfyna Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Pan mae cyfnod Aelod mewn swydd yn dechrau neu’n dod i ben ar adeg nad yw’n ddechrau nac yn ddiwedd y flwyddyn, cyfrifir ei hawl am Gyflog Sylfaenol yn ôl y gyfradd flynyddol.

1.4 Ni thelir mwy nag un Cyflog Sylfaenol i Aelod o'r Awdurdod.

1.5 Cyfeirir at gyfrifoldebau sylfaenol aelodau yn Adran 1 o Gyfansoddiad y Cyngor, sydd ar wefan y Cyngor. Mae'r Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod wedi'i gynnwys yn Adran 25.1 o'r Cyfansoddiad.

### 2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

2.1 Telir aelodau sy’n dal swyddi penodol Gyflog Uwch fel y nodir yn **Atodiad 1.**

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y'u pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Taliadau Annibynnol Cymru.

2.3 Un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig yn unig gaiff Aelod yr Awdurdod ei dderbyn.

2.4 Ni thelir Cyflog Uwch yn ogystal â Chyflog Dinesig i Aelod yr Awdurdod.

2.5 Mae pob cyflog Uwch a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni thelir Cyflog Uwch i ragor o Aelodau na’r nifer a nodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Daliadau Cydnabyddiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol, ac ni chaiff y nifer gynrychioli dros hanner cant y cant o holl aelodau’r Awdurdod, oni bo hynny er mwyn cynnwys deiliad swydd dros dro ar Gyflog Uwch, sy’n cyflenwi mewn swydd lle mae'r deiliad penodedig yn absennol am resymau teuluol. **Gall y Cyngor dalu hyd at 18 Cyflog Uwch, ond ar hyn o bryd, mae'n cyflogi 17.**

2.7 **Ni chaiff** Aelod o’r Awdurdod sy'n derbyn Cyflog Uwch dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub y mae wedi ei enwebu ar ei gyfer.

2.8 Ni all aelodau sy'n derbyn cyflog dderbyn unrhyw daliad gan Gyngor Tref / Cymuned y maent yn Aelod ohono heblaw costau teithio a chynhaliaeth ac ad-dalu costau gofal.

2.9 Pan mae cyfnod Aelod mewn swydd Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n dod i ben ar adeg nad yw'n ddechrau nac yn ddiwedd y flwyddyn, cyfrifir ei hawl am Gyflog yn ôl y gyfradd flynyddol.

2.10 Mae disgrifiadau swydd ar gyfer Aelodau Cyflog Uwch ac Aelodau eraill wedi eu gosod. Mae'r rhain ar gael yn Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor.

## 3. Etholiad er mwyn Hepgor Hawl am Lwfans

3.1 Gall Aelod ddewis yn bersonol i hepgor unrhyw ran o'i hawl am gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn, trwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Swyddog Priodol yr Awdurdod.

## 4. Gwahardd Aelod

4.1 Pan waherddir, neu waherddir yn rhannol, Aelod yr Awdurdod o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod yr Awdurdod, yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau) neu Reoliadau dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn cadw cyfran o'i Gyflog Sylfaenol a fyddai'n daladwy iddo yn ystod cyfnod ei waharddiad (dan Adran 155 (1) y Mesur).

4.2 Pan waherddir, neu waherddir yn rhannol, Aelod yr Awdurdod sy'n derbyn Cyflog Uwch o'i rôl fel Aelod yr Awdurdod, yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau) neu Reoliadau dan y Ddeddf, ni ddylai'r Awdurdod dalu Cyflog Uwch yr Aelod yn ystod cyfnod ei waharddiad (dan Adran 155 (1) y Mesur). Os yw'r gwaharddiad rhannol yn berthnasol i elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, mae'n bosib i'r Aelod barhau i dderbyn y Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu Cyflog, Lwfansau neu Ffioedd

5.1 Pan mae cyflog, lwfans neu ffi wedi ei dalu i Aelod yr Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig ar gyfer unrhyw gyfnod pan oedd un o'r canlynol yn berthnasol i'r Aelod:

(a) roedd wedi ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod Cyfetholedig, yn unol â Rhan 3 Deddf 200 neu Reoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno;
(b) mae'n peidio â bod yn Aelod yr Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig; neu
(c) trwy unrhyw ffordd arall, nid oes ganddo hawl i dderbyn cyflog, lwfans na ffi dros y cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn gofyn iddo ad-dalu'r arian a dalwyd iddo dros y cyfnod perthnasol.

## 6. Taliadau

6.1 Telir lwfansau'n rhandaliadau misol o un rhan o ddeuddeg tâl blynyddol yr Aelod.

6.2 Os yw Aelod yn derbyn mwy o dâl nac y mae ganddo hawl i'w dderbyn o ran cyflog, lwfansau a ffioedd, bydd yr Awdurdod yn gofyn am ad-daliad o'r gordal.

6.3 Mae'r holl daliadau yn destun treth a didyniadau Yswiriant Gwladol perthnasol.

## 7. Cyfraniad tuag at Gost Gofal a Chymorth Personol

7.1 Ad-delir Costau Gofal i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd gyda chyfrifoldeb gofalu am blant dibynnol neu oedolion, ar yr amod bod y costau yn talu am ofal a ddarparir ar eu cyfer tra bod yr Aelod yn ymgymryd â dyletswyddau Cyngor a'u 'cymeradwywyd'.

7.2 Mae Ad-dalu Costau Gofal yn berthnasol ynglŷn â phlant dibynnol (sy'n 15 oed neu'n iau) ac oedolion (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) y gall yr Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig ddangos bod gofal yn cael ei darparu ar eu cyfer wrth gynnal busnes swyddogol.

7.3 Gall Aelodau Cymwys hawlio Ad-daliad Costau Gofal am gostau gwir a chostau gyda derbynneb hyd at uchafswm nad yw'n fwy na'r hyn a bennir gan y Panel Taliadau Cydnabyddiaeth Annibynnol fel y nodir yn Atodiad 1. Dylid gwneud pob cais am Ad-daliad Costau Gofal yn ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan fanylu ar amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros yr hawliad. Mae angen derbynebau gan y gofalwr am drefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teulu

8.1 Mae gan Aelodau hawl, yn ôl gofynion Rheoliadau (Cymru) 2013 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau o Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021) ar gyfer Absenoldeb Teulu Aelodau Awdurdodau Lleol, am gyfnod o absenoldeb teulu lle cânt fod yn absennol o gyfarfodydd yr Awdurdod, os yw hynny'n unol â'r amodau a ddisgrifir.

8.2 Yn ystod cyfnodau o absenoldeb teulu, mae gan Aelodau hawl i barhau i dderbyn Cyflog Sylfaenol waeth beth oedd eu cofnod presenoldeb yn ystod y cyfnod yn syth cyn yr absenoldeb teulu.

8.3 Os yw person sy'n derbyn Cyflog Uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teulu, bydd yn parhau i dderbyn y Cyflog Uwch trwy gydol cyfnod yr absenoldeb.

8.4 Os yw'r Awdurdod yn cytuno ei bod hi'n angenrheidiol penodi rhywun i gyflenwi yn ystod cyfnod absenoldeb teulu deiliad swydd â Chyflog Uwch, bydd yr Aelod sy'n cyflenwi'n gymwys am Gyflog Uwch, os yw'r Awdurdod yn penderfynu hynny.

8.5 Os, oherwydd y cyflenwi, yw'r Awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm ar gyfer y cyflogau uwch, caniateir codi'r uchafswm ar gyfer cyfnod y cyflenwi.

## 9. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

9.1 Telir tâl dyddiol i Aelodau Cyfetholedig (â darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) os ydynt yn Aelodau Cyfetholedig yn statudol ac y mae ganddynt hawl i bleidleisio.

9.2 Telir cyfradd i Aelodau Cyfetholedig ar gyfer pob cyfarfod y maent yn mynd iddo. Mae uchafswm cyflog o 15 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob Pwyllgor y gellir cyfethol rhywun iddo.

9.3 Bydd taliadau yn cynrychioli amser teithio i ac o'r man cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi ar gyfer y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at yr uchafswm dyddiol).

9.4 O ran y Pwyllgor Safonau, y Swyddog Monitro yw'r "swyddog priodol", a bydd yn penderfynu hyd y cyfnod paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod; telir y ffi ar sail y

penderfyniad hwn. Gall y Swyddog Monitro benderfynu o flaen llaw a yw'r cyfarfod wedi ei drefnu am ddiwrnod llawn, a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn terfynu cyn pen pedair awr.

9.5 O ran y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yw'r "swyddog addas", a bydd yn penderfynu hyd y cyfnod paratoi, yr amser teithio a hyd y cyfarfod; telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn. Gall Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd benderfynu o flaen llaw a yw'r cyfarfod wedi ei drefnu am ddiwrnod llawn, a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn terfynu cyn pen pedair awr.

9.6 Pennir cyfarfod hanner diwrnod yn 4 awr o hyd.

9.7 Pennir cyfarfod diwrnod cyfran yn gyfnod dros 4 awr o hyd.

9.8 Cyfradd fesul awr - Mae'r PACGA wedi cynnig bod y swyddog lleol perthnasol (swyddog priodol fel a amlinellwyd uchod ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg) gael yr hyblygrwydd i benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod a phryd i ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cydgrynhoi nifer o gyfarfodydd byr.

9.9 Mae'r gyfradd fesul awr, y ffi dyddiol a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i pennir gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'u nodi yn Atodlen 1.

9.10 Mae'r gyfradd fesul awr, y ffi dyddiol a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'u nodi yn Atodlen 1.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 **Egwyddorion Cyffredinol**

10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio pan maent yn teithio ar fusnes yr Awdurdod er mwyn cyflawni 'dyletswyddau a gymeradwywyd' fel y nodir yn **Atodlen 2.** Pan mae Aelodau'n teithio er busnes yr Awdurdod, mae disgwyl iddynt fod yn ofalus wrth ddewis y dull mwyaf cost-effeithiol ac ecogyfeillgar o deithio. Ystyrir amser y daith wrth asesu effeithiolrwydd cost. Mae'n bosib y cwtogir costau Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol.

10.3 Os yw'n bosib, dylai Aelodau rannu trafnidiaeth.

10.4 Dylid hawlio costau teithio ar gyfer pellter y daith fyrraf resymol, ar hyd y ffordd, o'r man cychwyn i'r man lle cyflawnir y ddyletswydd, ac felly hefyd o'r fan yno yn ôl i'r man dychwelyd.

10.5 Nodir cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau yn **Atodlen 3**; mae'n bosibl iddynt newid yn sgil adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Daliadau Cydnabyddiaeth.

10.6 Pan waherddir, neu waherddir yn rhannol, Aelod yr Awdurdod o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod yr Awdurdod, yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau) neu Reoliadau dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn cadw unrhyw gostau teithio neu gynhaliaeth a fyddai'n daladwy iddo yn ystod cyfnod ei waharddiad neu waharddiad dros dro.

## 11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylid defnyddio cyfraddau Cyllid a Thollau EM ar gyfer defnyddio ceir preifat, beiciau modur a beics, yn ogystal â thâl ychwanegol ar gyfer cyd-deithiwr, fel uchafswm y cyfraddau teithio.

11.2 Mae'r cyfraddau fesur milltir ar gyfer cerbydau preifat fel y penderfynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Daliadau Cydnabyddiaeth yn **Atodlen 3.**

11.3 Os yw Aelod yn defnyddio ei gerbyd preifat er diben dyletswyddau a gymeradwywyd, rhaid sicrhau bod gan y cerbyd yswiriant ar gyfer defnydd busnes. Rhaid dangos tystiolaeth o yswiriant addas i'r Awdurdod os yw'n gofyn amdani.

## 12. Teithio gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus

12.1 **Teithio gyda Thrên neu Fws**

Oni bai y cymeradwyir fel arall, ail ddosbarth fydd pob tocyn trên.

Bydd Caffael Corfforaethol yn prynu tocynnau trên neu fws angenrheidiol ar gyfer Aelodau cyn y daith. Os oes angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol (sy'n sefyllfa brin), ad-delir y pris wedi i'r Aelod ddangos y tocyn sydd wedi ei ddefnyddio a/neu dderbynneb ar ei gyfer.

12.2 **Ffioedd Tacsi**

Ad-delir ffioedd tacsi os ydynt wedi eu hawdurdodi mewn achos o argyfwng yn unig, pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu pan mae ar Aelod angen arbennig. Ad-delir ar ôl cyflwyno derbynneb yn unig.

12.3 **Ffi Awyr**

Caniateir teithio awyr os mai dyma'r dull trafnidiaeth mwyaf cost-effeithiol. Mae angen awdurdodi hynny gan y Prif Weithredwr.

12.4 **Teithio Dramor**

Ni chaniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod oni awdurdodir hyn gan y Prif Weithredwr.

12.5 **Costau Teithio Eraill**

Bydd hawl gan Aelodau am ad-daliad o ffioedd tollau, ffioedd parcio, costau cadw car dros nos a chostau angenrheidiol eraill sy'n gysylltiedig â theithio. Ni roddir ad-daliad heb dderbynneb.

## 13. Llety Dros Nos

13.1 Mae angen caniatâd ysgrifenedig gan yr Arweinydd (waeth p'un ai oes angen aros dros nos ai peidio) a'r Prif Weithredwr ar unrhyw Aelod sydd am fynd i gynhadledd neu seminar cyn iddo wneud unrhyw drefniadau ar gyfer mynd. Os caiff awdurdod, cedwir y pro forma wedi ei gwblhau gan y Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw / ei anfonebu.

## 14 Lwfans Cynhaliaeth

14.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol, er mwyn talu costau prydau a lluniaeth ysgafn yn gysylltiedig â dyletswyddau a gymeradwywyd (gan gynnwys brecwast os nad yw'n gynwysedig ym mhris y llety dros nos) i'w weld yn **Atodlen 3**. Mae uchafswm y gyfradd ddyddiol am gyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd bwyd perthnasol, gyhyd â bod derbynneb (derbynebau) i gefnogi'r hawliad. Rhaid hawlio ar sail "gwir" wariannau hyd at yr uchafswm.

14. 2 Ni ddarperir ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

## 15. Hawlio a Thalu

15.1 Rhaid cyflwyno pob cais am filltiroedd, teithio a chynhaliaeth i'r swyddog perthnasol o fewn 90 diwrnod wedi'r gwariant. Y swyddog perthnasol i'r Aelodau'r Cabinet yw Swyddog y Cabinet. I'r Aelodau eraill, y swyddog perthnasol yw Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

15.2 Bydd lwfansau o'r fath yn cael eu talu gan y Pennaeth Cyllid gan BACS ar y 15fed diwrnod o'r mis.

## 16. Trefniadau Talu

16.1 Mae'r Cyngor yn talu cyflogau, lwfansau a ffioedd addas i'w Aelodau (ac aelodau cyfetholedig) sy'n cynnwys costau gofal, costau teithio a chostau cynhaliaeth yn unol â'r atodiad. Gwneir y taliadau hyn trwy system cyflogres y Cyngor, a bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Cabinet (sy'n derbyn ffurflenni hawlio'r Aelodau) yn eu gwirio a'u mantoli. Llofnodir y ffurflenni hawlio gan yr Aelodau yn datgan y canlynol -

(a) bod y costau wedi codi o deithio a chynhaliaeth er mwyn rhoi'r gallu iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau a gymeradwywyd fel Aelod y Cyngor

(b) eu bod nhw wedi talu'r costau a nodir

(c) bod y symiau a hawlir yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â chyfraddau a bennwyd gan y Cyngor

(d) nad ydynt wedi derbyn na hawlio costau teithio, cynhaliaeth na lwfans mynychu gan unrhyw awdurdod na chorff arall

(e) eu bod wedi mynd i wariant am gyfraniadau tuag at Gost Gofal a chymorth personol yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor;

a bod y datganiadau uchod yn gywir, ac nad ydynt wedi nac am wneud unrhyw hawliad dan unrhyw ddeddf am gostau teithio neu lwfansau yn gysylltiedig â'r dyletswyddau a nodir.

## 17. Pensiynau

17.1 Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r gallu i Aelodau cymwys ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol.

## 18. Cefnogi Gwaith yr Awdurdod

18.1 Mae Panel Taliadau Annibynnol Cymru yn disgwyl i Aelodau gael cefnogaeth ddigonol i gyflawni eu dyletswyddau ac y dylai'r gefnogaeth a ddarperir ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau a dylai fynd â chynigion am gefnogaeth resymol i'r Cyngor llawn.

18.2 Mae pob Aelod etholedig wedi cael offer TGCh (ffôn a gliniadur) a mynediad i'r rhyngrwyd i roi mynediad electronig i wybodaeth briodol.

18.3 Dylai cefnogaeth o'r fath fod heb gost i unrhyw Aelod. Rhaid peidio â gwneud didyniadau o gyflogau Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y gefnogaeth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sy'n angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a / neu effeithlonrwydd Aelodau.

## 19. Cydymffurfio

19.1 Yn unol â'r Rheoliadau, mae rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel o ran monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y disgrifir yn **Atodiad 4.**

**Atgoffwn Aelodau fod hawliadau am gostau yn rhan o'r archwiliadau mewnol ac allanol.**

**ATODLEN 1**

**RHESTR TALIADAU CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2024/25**

| | AELODAU SY'N GYMWYS AM GYFLOG SYLFAENOL | CYFANSWM BLYNYDDOL CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|---|
| | Y canlynol, sy'n Aelodau Etholedig yr Awdurdod: | £18,666 |

| | | |
|---|---|---|
| A. Asbrey | W. Gilligan | B. Loveluck-Edwards |
| J. Aviet | R. Godfrey | |
| G. Ball | Emma Goodjohn | J. Lynch-Wilson |
| G. Bruce | Ewan Goodjohn | K. Mahoney |
| I. Buckley | S. Haines | M. Morgan |
| S. Campbell | H. Hamilton | J. Norman |
| C. Cave | S. Hanks | H. Payne |
| C. Champion | W. Hennessy | I. Perry |
| M. Cowpe | N. Hodges | C. Stallard |
| V. Driscoll | M. Hooper | S. Wiliam |
| A. Ernest | C. Iannucci-Williams | M. Wilkinson |
| R. Fisher | | N. Wood |
| C. Franks | | |

| | AELODAU SY'N GYMWYS AM GYFLOG UWCH (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | CYFANSWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH |
|---|---|---|---|
| | **SWYDD** | **AELOD** | |
| 1 | Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau | L. Burnett | £62,998 |
| 2 | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd | B. Brooks | £44,099 |
| 3 | Aelod Cabinet dros Ymgysylltu a'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol | R. Sivagnanam | £37,799 |
| 4 | Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg | R. Birch | £37,799 |
| 5 | Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles | G. John | £37,799 |
| 6 | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu | M. Wilson | £37,799 |
| 7 | Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid | S. Perkes | £37,799 |
| 8 | Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | E. Williams | £37,799 |
| 9 | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol | J. Protheroe | £27,999 |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd as Adfywio | S. Lloyd-Selby | £27,999 |
| 11 | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Bwy Yn Iach a Gofal Cymdeithasol | J. Charles | £27,999 |

| | AELODAU SY'N GYMWYS AM GYFLOG UWCH (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | CYFANSWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH |
|---|---|---|---|
| | **SWYDD** | **AELOD** | |
| 12 | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel | A. Collins | £27,999 |
| 13 | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant | R. Thomas | £27,999 |
| 14 | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | N. Thomas | £27,999 |
| 15 | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgorau Statudol a Diogelu'r Cyhoedd) | P. Drake | £27,999 |
| 16 | Arweinydd yr Grŵp Gwrthblaid Mwyaf | G. Carroll | £27,999 |
| 17 | Arweinydd Grŵp Gwleidyddol Arall | Dr. I. Johnson | £22,406 |
| 18 | Ni ddefnyddir y swydd | | |
| Mae uchafswm o **18** swydd gyflog uwch ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, ond **17** yn unig y mae'r Cyngor yn eu talu. | | | |

| HAWL AM GYFLOG DINESIG (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | CYFANSWM BLYNYDDOL CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **SWYDD** | **AELOD** | |
| Maer | E. Penn | £27,999 |
| Dirprwy Faer | N. Marshallsea | £22,406 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **SWYDD** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Mr. R. Hendicott | £268 Ffi Ddyddiol<br>£134 Ffi ½ Diwrnod<br>a / neu<br>ar 1 Ebrill 2024 cyfradd fesul awr £33.50 * |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Mr. G. Chapman | £268 Ffi Ddyddiol<br>£134 Ffi ½ Diwrnod<br>a / neu<br>ar 1 Ebrill 2024 cyfradd fesul awr £33.50 * |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol<br><br>Pwyllgor Safonau<br>Pwyllgor Lywodraethu ac Archwilio<br>Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant | Safonau:<br>• Mr. R. Alexander<br>• Mrs. L. Tinsley<br>• Mr. G. Watkins<br>• Mr. G. Olphert<br>• Cynghorydd | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 Ffi ½ Diwrnod<br>a / neu<br>ar 1 Ebrill 2024 cyfradd fesul awr |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| SWYDD | AELOD | |
| | P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned)<br><br>Llywodraethu ac Archwilio<br>• Mr. M. Evans<br>• Mr. N. Ireland<br><br>Pwyllgor Craffu Ddysgu a Diwylliant<br>• L. Barrowclough<br>• R. Morteo (tan Awst 2024)<br>• Dr. M. Price<br>• G. Van der Burgt | £26.25 * |

* Mae'r PACGA wedi cynnig y dylai'r swyddog lleol perthnasol gael yr hyblygrwydd i benderfynu pryd y bydd yn briodol defnyddio cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod a phryd i ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cydgrynhoi nifer o gyfarfodydd byr.

| **AELODAU SY'N GYMWYS I DDERBYN ~~LWFANS~~ AD-DALIAD COSTAU GOFAL AELODAU SY'N GYMWYS I DDERBYN AD-DALIAD O GOST GOFAL** | |
|---|---|
| Holl Aelodau | |

| **Cymorth i Aelodau - Yr hyn a ddarperir o ran ffôn, rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)** | |
|---|---|
| Darperir gliniadur a dyfais ffôn symudol i holl Aelodau'r Cyngor. Mae gan aelodau fynediad at e-bost a chyfleuster rhyngrwyd i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau / rolau etholedig. | |

## ATODLEN 2

**Dyletswyddau a gymeradwywyd:**-

- mynd i gyfarfod yr Awdurdod neu unrhyw bwyllgor yr Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn penodi neu'n enwebu pobl iddo neu unrhyw bwyllgor corff o'r fath;
  *e.e. cyfarfodydd y Cyngor, pwyllgorau, cynrychiolaeth ar gyrff allanol.*

- mynd i gyfarfodydd unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;
  *e.e. cyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol.*

- mynd i unrhyw gyfarfod arall y'i cynhelir gydag awdurdodiad yr Awdurdod neu bwyllgor yr Awdurdod neu gydbwyllgor yr Awdurdod gydag un neu fwy o Awdurdodau eraill;
  *e.e. cyfarfodydd is-bwyllgorau, gweithgorau, paneli, grwpiau cynghorol, fforymau.*

- dyletswydd a gyflawnir er diben neu yn gysylltiedig â chyflawni cyfrifoldebau'r Cabinet;
  *e.e. Cabinet, busnes y Cabinet, is bwyllgorau'r Cabinet.* ***Ond nid yw'n berthnasol i gyfarfodydd gyda swyddogion – megis Timau Rheoli'r Adrannau a chyfarfodydd briffio gyda Phrif Swyddogion.***

- dyletswydd a gyflawnir er mwyn gweithredu Gorchymyn Sefydlog sy'n gofyn i Aelod neu i Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
  *Amherthnasol – Nid oes angen i Aelodau fod yn bresennol ar gyfer Gorchmynion Sefydlog.*

- dyletswydd a gyflawnir yn gysylltiedig â chyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod sy'n rhoi'r gallu neu sy'n gofyn am i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio eiddo;
  *e.e. ymweliadau archwilio swyddogol i eiddo.*

- mynd i unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygu a awdurdodir gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;
  *e.e. mynd i ddigwyddiadau Datblygu Aelodau.*

- unrhyw ddyletswydd arall wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o fath sydd wedi ei gymeradwyo, pan y'u gweithredir er diben, neu mewn cysylltiad â, dyrannu ei gyfrifoldebau.
  *(Nid yw'r Awdurdod wedi defnyddio'r cymal hwn i ehangu ar ddiffiniad dyletswydd sydd wedi ei gymeradwyo yn y cynllun.)*

## ATODLEN 3

**Cyfraddau Fesul Milltir**

| | |
|---|---|
| Cerbyd modur preifat o unrhyw faint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10, 000 milltir | <br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau Modur Preifat<br>Beics | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl ychwanegol am gyd-deithiwr | 5 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol hyd at uchafswm o £28 am gyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd os yn berthnasol gyhyd â bod derbynebau i gefnogi'r hawliad.

Nid ad-delir costau diodydd alcoholaidd.

**Aros Dros Nos**

Uchafswm y lwfans ar gyfer llety dros nos yw £200 yn Llundain, a £95 ym mhobman arall.  Mae uchafswm o £30 ar gael am aros dros nos gyda chyfeillion neu berthnasau tra mae'r Aelod yn cyflawni dyletswydd a gymeradwywyd.

**ATODLEN 4**

**Cydymffurfio**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi cyfanswm y taliadau a wna i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig o ran cyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ar ei wefan erbyn 30 Medi ar ddiwedd y flwyddyn berthnasol. Er mwyn bod yn eglur, bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth holl benodiadau gwasanaeth cyhoeddus yr Aelodau Etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad cyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd ar ei wefan yn ogystal â disgrifiadau swydd ar gyfer deiliad swyddi Cyflog Uwch sy'n nodi'n glir beth yw'r dyletswyddau a ddisgwylir ganddynt.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi rhestr flynyddol o daliadau cydnabyddiaeth yr Aelodau nid hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r rhestr yn berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r rhestr y berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion presenoldeb Aelodau/Aelodau Cyfetholedig yng nghyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a'r Pwyllgorau a dyletswyddau eraill a gymeradwywyd y gall Aelod/Aelod Cyfetholedig hawlio ad-daliad ar eu cyfer.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol wedi eu llunio gan Aelodau ar ei wefan.

- Pan mae'r Awdurdod yn cytuno i dalu am gyflenwi yn ystod absenoldeb am resymau teuluol, bydd yn rhoi gwybod i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 14 diwrnod wedi dyddiad penderfynu ar y manylion, yn cynnwys enw'r swydd benodol a chyfnod y cyflenwi.